

## PWYLLGOR CRAFFU BYW’N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd, 2023.

Mae-r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Yr Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd yn y Gadair); Cynghorwyr G. Ball, C.A. Cave, M. Cowpe, R. Fisher, E.J. Goodjohn a J. Lynch-Wilson.

Hefyd yn bresennol: G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), Dr. I.J. Johnson ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd).

### 495 CYHOEDDIAD -

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb oedd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngwyd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i'w weld yn y dyfodol”.

Dywedodd Is-Gadeirydd y Pwyllgor eu bod eu hunain, a Chadeirydd y Pwyllgor, wedi ystyried canlyniadau arolwg diweddar a gynhaliwyd ymhlith Aelodau'r Pwyllgor a'r Swyddogion Cefnogi mewn perthynas ag amser dechrau cyfarfodydd y Pwyllgor. Yn seiliedig ar yr adborth a dderbyniwyd, roedd yn amlwg ac wedi hynny cytunwyd i gynnal 5.00 p.m. amser cychwyn ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol.

### 496 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr J.E. Charles (Cadeirydd), I. Buckley, A.M. Collins, J.M. Norman a C. Stallard.

### 497 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Hydref, 2023 fel cofnod cywir.

### 498 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

499 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYDWEITHREDOL MABWYSIADU  
RHANBARTHOL Y FRO, Y CYMOEDD A CHAERDYDD (CGC) –

Cyflwynodd y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol yr 8<sup>fed</sup> adroddiad o'i fath, a'i ddiben oedd rhoi i'r Pwyllgor Adroddiad Perfformiad ac Adolygiad Gwasanaeth Cydweithfa Fabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd. Roedd Cydweithfa Fabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd yn un o'r pum cydweithfa ranbarthol a oedd yn ffurfio rhan o'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (GMC) ac roedd yn darparu gwasanaeth mabwysiadu ar ran Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Cyngor Bro Morgannwg oedd yr awdurdod cartref ar gyfer y Gydweithfa.

Roedd yr adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 ac yn ymgorffori'r gofynion adrodd a nodir yn y Cytundeb Cyfreithiol sy'n sail i'r Gydweithfa a'r gofyniad i adolygu'r gwasanaeth bob chwe mis fel y nodir yn y rheoliadau.

Rhoddodd y Swyddog wybod i'r Pwyllgor am y gwaith o lywodraethu a chraffu'r trefniadau rhanbarthol ar lefel leol, newidiadau i staff a datblygiad gwasanaethau. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi gwybodaeth perfformiad allweddol yn ymwneud â lleoli plant i'w mabwysiadu, recriwtio ac asesu mabwysiadwyr, a darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu.

Tynnodd y Swyddog sylw hefyd at yr heriau allweddol a'r blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth o ran datblygu'r gwasanaeth yn erbyn agenda gwella cenedlaethol sy'n cynyddu'n barhaus fel y nodir yn nhudalennau 21 i 23 Atodiad A.

Yna tynnodd y Swyddog sylw'r Aelodau at yr Atodiadau o fewn yr adroddiad a atodwyd a oedd yn rhoi data mewn perthynas â mesurau perfformiad allweddol mewn perthynas â phlant, gweithgarwch marchnata, recriwtio mabwysiadwyr, cymorth mabwysiadu a'r Panel Mabwysiadu. Cafodd y wybodaeth hon ei dadansoddi gan yr Awdurdod Lleol.

I gloi, dywedodd y Swyddog fod y gydweithfa, ar y cyfan, wedi cael canlyniad diwedd blwyddyn dymunol ar draws y gwasanaeth.

Yn dilyn cyflwyniad y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol, cynigiodd Is-Gadeirydd y Pwyllgor ddiolch i'r Pwyllgor am yr adroddiad cynhwysfawr a nododd fod y pwysau ar y gwasanaeth yn glir iawn.

Yn dilyn hynny, gwahoddodd yr Is-Gadeirydd sylwadau gan y Pwyllgor, a diolchodd y Cyngorydd Cave i'r swyddogion am yr adroddiad a nododd fod llawer o fewn yr adroddiad i fod yn falch ohono gan gynnwys y ffaith mai dim ond un mabwysiad a oedd wedi chwalu dros y blynyddoedd diwethaf, a oedd yn gadarnhaol iawn ac yn arwydd o lefelau ymroddiad y Swyddogion. Yna cyfeiriodd y Cyngorydd Cave at Gyllid a Gymeradwywyd ar gyfer Pecynnau Therapiwtig - Ebrill 2022 i Fawrth 2023, fel y nodir yn Atodiad 3 Tudalen 3 a nododd fod y gwariant cyfartalog ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg yn sylweddol uwch na'r tri Awdurdod Lleol arall mewn perthynas ag ymyriadau therapiwtig ar ôl mabwysiadu. Felly, gofynnodd y

Cynghorydd Cave a oedd y gwariant cyfartalog uwch ar gyfer Bro Morgannwg wedi cyfrannu at ddiffyg chwalfeydd mabwysiadau'r Cyngor.

Mewn ymateb, eglurodd y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol nad oedd y plant a gasglwyd o fewn y data yn destun Gorchymyn Mabwysiadu eto a'u bod yn parhau'n blant sy'n derbyn gofal. I egluro ymhellach, dywedodd y Swyddog hefyd fod chwalfa cartref mabwysiadol yn y cam cyn mabwysiadu yn cael ei ddisgrifio fel 'aflonyddwch' ac felly cyfeiriwyd at chwalfa ar ôl mabwysiadu fel 'chwalfa'. Ychwanegodd y Swyddog hefyd fod Swyddogion yn ymwybodol o'r ffaith bod costau cymorth yn cynyddu ac roedd y Bwrdd Rheoli'n parhau i fonitro'r rhain. Roedd y costau'n ymwneud â nifer fach iawn o blant fodd bynnag roedd y cynnydd yng nghostau pecynnau gofal wedi arwain at gynnydd yn y ffigyrau.

Mewn ymateb, diolchodd y Cynghorydd Cave i'r Swyddog am ei ymateb a phwysleisiodd fod y cymorth a roddir gan y Cyngor ar ôl mabwysiadu yr un mor bwysig â'r cymorth a roddir cyn i'r mabwysiadu ffurfiol ddigwydd ac felly nid oedd y ffigurau o reidrwydd yn cael eu hystyried yn negyddol.

Yna ychwanegodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc fod Swyddogion yn ymwybodol o'r ffigwr cynyddol a allai ymddangos yn anghymesur a dywedodd fod dadansoddiad pellach yn cael ei gynnal gan sicrhau hefyd bod y cymorth cywir yn cael ei roi i'r plant dan sylw.

Mewn ymateb i gwestiwn dilynol gan y Cynghorydd Cave, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc y byddai gwybodaeth wedi'i diweddarau yn cael ei chyflwyno yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf a fyddai'n cael ei roi i'r Pwyllgor, fodd bynnag, pe bai'r Pwyllgor yn gofyn am wybodaeth yn gynharach, gellid rhoi hon hefyd. Nododd yr Is-Gadeirydd wedi hynny y byddai cynnwys y canfyddiadau yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf i'r Pwyllgor yn sicrhau bod y canfyddiadau hefyd ar gael i'r cyhoedd eu gweld.

Yna symudodd yr Is-Gadeirydd y drafodaeth ymlaen i ddeunyddiau taith bywyd i blant mabwysiedig a nododd, oherwydd bod ffotograffau bellach yn cael eu digido yn bennaf ac nad ydynt yn cael eu hargraffu gan unigolion, ei bod yn anodd dod o hyd i ffotograffau copi caled ar gyfer plant a fabwysiadwyd yn ddiweddar. Felly, gofynnwyd beth oedd y Cyngor yn ei wneud i liniaru hyn o ran creu deunyddiau taith bywyd i blant mabwysiedig.

Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc nad oedd modd adnabod llyfrau taith bywyd o'u cymharu â fersiynau hanesyddol gan fod prosesau a thechnoleg wedi datblygu'n sylweddol. Erbyn hyn roedd dau swyddog taith bywyd yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr cymdeithasol i ddatblygu llyfrau a deunyddiau creadigol iawn. Roedd sicrhau bod deunyddiau taith bywyd ar gael hefyd yn cael ei flaenoriaethu yn y broses o wneud penderfyniadau ac ni fyddai Penderfynwr yr Asiantaeth (y Pennaeth Gwasanaeth) yn cymeradwyo pariad heb fod y deunyddiau hyn ar gael.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, mae'r Pwyllgor wedi hynny

## ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi Adroddiad Blynyddol Cydweithredol Mabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd 2022-23.

(2) BOD y Pwyllgor yn parhau i dderbyn adroddiadau blynyddol.

### Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad ar waith y Gydweithrediaeth a gyflawnwyd hyd yma ac archwilio'r swyddogaeth statudol allweddol.

(2) Sicrhau bod y Pwyllgor yn craffu'n fanwl ar y gwasanaeth rhanbarthol yn rheolaidd yn unol â gofynion y Cytundeb Cyfreithiol sy'n sail i'r Gydweithrediaeth.

## 500 DIWEDDARIAD GWASANAETHAU TELEOFAL (CGC) -

Cyflwynodd Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Ardal Leol yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am waith y Gwasanaeth Teleofal dros y 12 mis diwethaf a rhoi gwybod i'r Aelodau am Ddatblygiadau Gwasanaeth yn dilyn Adolygiad y Gwasanaeth Teleofal.

Roedd Teleofal yn parhau'n elfen annatod o'r gwasanaethau Gofal a Chymorth a oedd ar gael i bobl ledled Bro Morgannwg. Roedd yn galluogi pobl i fyw'n annibynnol gartref cyhyd ag y bo modd drwy gynnig sicrwydd a chymorth i ofalwyr teulu. Roedd Teleofal yn rhoi gwybodaeth werthfawr am iechyd a lles dinasyddion i weithwyr proffesiynol a theulu; a chynnig mynediad ymatebol i gymorth brys pan fo angen.

Roedd y Gwasanaeth Teleofal wedi dechrau ac yn dal i gynnal rhaglen drawsnewid ar raddfa fawr i wella ei dechnoleg sylfaenol a pharatoi'r gwasanaeth ar gyfer newid telathrebu 2025 o signalau analog i signalau digidol.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r newidiadau sylweddol canlynol wedi'u gwneud:

- Roedd hen gronfa ddata electronig analog Teleofal a oedd yn cael ei defnyddio i dderbyn galwadau larwm, sef y Ganolfan Derbyn Larymau, wedi'i disodli gyda fersiwn gwbl ddigidol.
- Roedd canolfan alwadau 24/7 wedi bod ar waith ers mis Awst 2022 ac roedd Cyngor Bro Morgannwg yn falch o fod y cyntaf yng Nghymru i fabwysiadu platform digidol a fu'n llwyddiant mawr.
- Roedd gwasanaeth ymateb brys 24/7 ar gyfer cwmpadau gydag Ambiwlans Sant Ioan wedi'i gyflwyno i bob cwsmer teleofal a oedd yn cefnogi y Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) i reoli galw yn ogystal â lleihau costau gofal iechyd cysylltiedig. Amcangyfrifwyd bod y gwasanaeth wedi arbed £726k i'r BIP ar gyfer y flwyddyn bresennol ac amcangyfrifwyd y bydd hyn yn cynyddu i tua £1m ar gyfer y flwyddyn nesaf. Roedd nifer yr unigolion yn defnyddio'r gwasanaeth wedi cynyddu'n sylweddol ers y flwyddyn ddiwethaf gyda'r niferoedd yn codi o 30 i 120. Ar adeg y cyfarfod, yr amser ymateb ar

gyfartaledd oedd 28 munud a 32 eiliad. Roedd y Gwasanaeth Cwmpadau hefyd yn cefnogi unigolion i gysylltu ag ôl-ofal er mwyn osgoi cwmpadau pellach.

- Roedd rhaglen i ddisodli'r dyfeisiau analog (gwifredig) mewn cartrefi cwsmeriaid gydag unedau digidol wedi dechrau gyda 41% o'r holl hen ddyfeisiau analog yn cael eu disodli hyd yma.
- Roedd y gwasanaethau i ddinasyddion wedi cael eu diwygio a'u symleiddio i bedwar cynnyrch a oedd yn haws eu deall; Hanfodol, Efydd, Arian ac Aur.
- Roedd y gwasanaeth wedi cael ei ailfrandio o TeleV i Teleofal y Fro a oedd yn fwy addas i'w weledigaeth, ei genhadaeth a'i bwrpas. Roedd wedi bod yn flwyddyn brysur iawn i'r tîm a oedd wedi bod yn ymatebol iawn i gefnogi'r 2,500 o gwsmeriaid sydd bellach wedi'u cofrestru ar gyfer y gwasanaeth.

Yna cyfeiriodd y Swyddog at baragraff 2.3 yr adroddiad a oedd yn nodi'r Cynllun Tîm dwy flynedd, dros 12 prosiect, am y flwyddyn i ddod i adeiladu ar y llwyddiant presennol a galluogi'r gwasanaeth i wella'n barhaus. Yn benodol:

- Ymgyrch Farchnata: Ar hyn o bryd nid oedd Teleofal yn buddsoddi'n fawr mewn hysbysebu a marchnata. Dros y ddwy flynedd nesaf byddai'n buddsoddi mewn datblygu gwefannau, hysbysebu lleol ac estyn allan at ofal cymdeithasol ac iechyd i dynnu sylw at fanteision y gwasanaeth i ddinasyddion i gynyddu nifer y cwsmeriaid, hyrwyddo'r brand a gwella hygyrchedd.
- Achrediad Cymdeithas Gwasanaethau Teleofal (CGT): Roedd y CGT yn gorff cynghori cenedlaethol ar gyfer Teleofal a oedd yn cynnig Fframwaith Safonau Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Teleofal. Ar hyn o bryd, nid oedd y gwasanaeth teleofal presennol wedi'i achredu gan CGT, fodd bynnag, roedd y platform newydd a'r newidiadau gwasanaeth yn cynnig cyfle delfrydol i asesu anghenion achredu a dechrau'r broses.
- Treialon Gofal Rhagweithiol a Dyfeisiau Arloesol: Roedd y Ganolfan Derbyn Larymau UMO newydd yn cynnig y gallu i ddefnyddio ystod eang o dechnoleg. Roedd angen sefydlu treialon ar gyfer dyfeisiau a sefydlu cynhyrchion newydd y tu allan i becynnau Hanfodol, Efydd, Arian ac Aur Teleofal.

Dechreuodd yr Is-Gadeirydd drafodaeth ar yr eitem drwy ddatgan ei falchder yng Nghyngor Bro Morgannwg yn arwain y ffordd mewn perthynas â gwasanaethau teleofal digidol. Yna gwahoddwyd y Cyngorydd Lynch-Wilson i siarad gerbron y Pwyllgor, a ddiolchodd i'r swyddogion am adroddiad diddorol a nododd fod unigolion a oedd yn anffodus wedi disgyn nid yn unig angen cymorth ar gyfer y cwmp ei hun ond hefyd i reoli'r ofn seicolegol dilynol er mwyn iddynt aros gartref ar eu pennau eu hunain yn hyderus. Felly, diolchodd y Cyngorydd Lynch-Wilson i'r holl swyddogion am eu gwaith gwerthfawr ar y mater.

Wrth gyfeirio at yr arbedion ariannol a gyflwynwyd gan y Swyddog, cydnabu'r Is-Gadeirydd nad arbedion ariannol yn unig oedd yn cael eu gwneud ond hefyd o ran costau cymdeithasol a dynol a oedd yn llai mesuradwy ond yn sylweddol fwy yn ôl pob tebyg na'r costau ariannol a nodwyd. Mewn ymateb i gwestiwn atodol gan yr Is-Gadeirydd ar amserlen y ffigurau defnyddwyr gwasanaeth a roddwyd, rhoddodd

Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Ardal Leol wybod am y ffigurau ymateb i gwympiadau yn ystod y misoedd diwethaf fel a ganlyn:

Gorffennaf 2023	148 o unigolion
Awst 2023	117 o unigolion
Medi 2023	130 o unigolion.

Roedd hyn yn rhoi ffigwr cyfartalog o tua 120 o unigolion y mis dros y chwe mis diwethaf.

Yna cyfeiriodd yr Is-Gadeirydd at fannau du digidol yn y Fro a sut yr oedd cymorth yn cael ei roi i unigolion nad oedd ganddynt fynediad at gysylltiadau band eang dibynadwy. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog, o ran dyfeisiau sydd ar gael i'w gosod mewn cartrefi, y byddai dau gerdyn sim yn cael eu gosod o fewn y dyfeisiau i gynnal cysylltiad diogel. Roedd yn anodd nodi union leoliadau manau du ym Mro Morgannwg gan nad oedd argaeledd band eang yn fater cod post penodol ac roedd yn dibynnu'n bennaf ar seilwaith o fewn eiddo a thopograffeg leol, fodd bynnag, roedd darparwyr y Cyngor yn ymwybodol o eiddo penodol a oedd ag anawsterau o ran cysylltiadau band eang ac roeddent yn edrych ar gynyddu opsiynau cysylltiad trwy gysylltiad ethernet.

I gefnogi hyn, ychwanegodd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Chynghrair y Fro am sicrwydd, pe bai larwm wedi'i actifadu yn ystod toriad gwasanaeth rhyngwrwyd, yna byddai'r signal yn parhau i gael ei anfon i'r Ganolfan Gyswilt pan fo cysylltiad wedi'i ailsefydlu. Felly, byddai'r alwad yn cael ei hystyried fel un wedi'i hoedi yn hytrach nag un wedi'i cholli.

Fel cwestiwn olaf, gofynnodd yr Is-Gadeirydd i'r swyddogion a oedd Bro Morgannwg yn siarad â'r trydydd sector er mwyn dysgu am fentrau ac arferion gwaith newydd i wella ei rhai ei hun. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Chynghrair y Fro fod y Cyngor yn parhau i weithio gydag Innovate Trust a bod swyddogion yn gweithio'n barhaus gyda phartneriaid allanol i wella gwasanaethau. Felly, byddai fersiwn nesaf yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor yn ehangu ar weithio mewn partneriaeth ac nid y gwasanaeth teleofal yn unig.

I grynhoi, nododd yr Is-Gadeirydd falchder y Pwyllgor mewn perthynas â gwasanaeth teleofal y Cyngor, y llwyddiant enfawr hyd yma, yn ogystal ag arwain ar arloesi a datblygu ar y mater.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, mae'r Pwyllgor wedi hynny

**ARGYMHELLWYD –**

- (1) Nodi gwaith a datblygiadau'r gwasanaeth Teleofal i'r dyfodol.
- (2) BOD y Pwyllgor yn derbyn diweddariadau blynyddol ar waith y Gwasanaeth Teleofal a gwaith partneriaeth arall.
- (3) Y dylid nodi'r newidiadau a'r datblygiadau a gynlluniwyd ar gyfer y gwasanaeth, fel y nodir ym mharagraff 2.3 o'r adroddiad.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Ystyried cynnwys yr adroddiad ar heriau, cyfleoedd a chyfeiriad strategol Gwasanaeth Teleofal Cyngor Bro Morgannwg.
- (2) Hysbysu'r Aelodau o waith y Gwasanaeth Teleofal a datblygiadau cysylltiedig.
- (3) Sicrhau bod aelodau Sgriwtini yn cael y cyfle i adolygu a hysbysu'r datblygiadau arfaethedig/dyfodol ar gyfer y gwasanaeth.